DOLEN Y TAB – 11
3–4 Gorffennaf 2020

DYDD SUL
5 Gorffennaf

OEDFA'R DATHLU

Sara Esyllt sy'n ein tywys drwy Oedfa'r Dathlu a fydd yn ymddangos ar *Facebook* ac ar wefan y capel ben bore Sul. Bydd yn cael cwmni Gwenfil Thomas, Nia Williams, Ann Dwynwen Davies ac Emlyn Davies. Bydd dau ddatganiad ar y piano, y naill gan Eleri Huws a'r llall gan Elain Llwyd Davies, a chawn fwynhau datganiad o'r archif gan Gôr Cerdd Dant Merched y Garth. Gobeithio y medrwch neilltuo amser i wylio.

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol
gyda'r Parchedig Adrian Morgan, Gorseinon.

12.00 Oedfa Radio Cymru
yng ngofal y Parchedig Eric Greene, Y Bala.

***

Cofiwch hefyd fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul: www.cristnogaeth21.cymru

---

HENO
(NOS WENER, 3 GORFFENNAF)

AM 7 O'R GLOCH

Yn fyw i'ch cartrefi . . .

CWIS BOB OED
CAPEL Y TABERNACL

CWISFEISTRI:
Caroline & Geraint
Gareth & Rhiannon

CROESO I BAWB YMUNO AR ZOOM!
ID: 88631469252
CYFRINAIR: 391265

DATHLU'R 150 PEN-BLWYDD
YN DDIGIDOL

Ar ddechrau 2020, y gobaith oedd i ni gyrraedd penllanw dathliadau ail-godi'r Tabernacl y penwythnos hwn, a hynny gyda'n gilydd yn un teulu cytûn ym mhentref Efail Isaf. Yn anffodus, bu'n rhaid i ni ohirio'r gweithgareddau hynny oedd wedi eu trefnu ar gyfer y gwanwyn, am y tro, yn y gobaith y medrwn eu cynnal rhyw ben cyn diwedd y flwyddyn.

Ond i gyd-fynd â dyddiad agoriad swyddogol y Tabernacl ar ei newydd wedd ddechrau Gorffennaf 1870, mae'n hyfryd medru cyhoeddi y byddwn yn cynnal dathliadau digidol – a hynny mewn 'steil', nid yn unig er mwyn anrhydeddu gweledigaeth, ffydd a llafur ein rhagflaenwyr ond hefyd i ystyried cyfeiriad yr eglwys i'r dyfodol.

Yn gyntaf cawn ymuno mewn oedfa ddigidol arbennig i ddathlu'r achlysur fydd ar gael o ben bore dydd Sul ar ein llwyfannau arferol (ceir y manylion llawn ar frig y cylchlythyr hwn). Yna, o gwmpas amser cinio dydd Sul, bydd rhifyn mis Gorffennaf o *Tafod y Tab* i'w weld ar ein llwyfannau digidol. Nid rhifyn cyffredin o'r *Tafod* mo hwn, ond 'Siwper' Tafod, oherwydd ynddo bydd ynddo atodiad **36 TUDALEN SWMPUS, RYNGWEITHIOL** sy'n olrhain hanes yr achos o'i ddechreuad hyd heddiw. Wedi cael cipolwg sydyn ar ei gynnwys, gallwn eich sicrhau bod yna wledd flasus iawn yn eich aros, ac ambell her hefyd – felly anghofiwch am baratoi cinio ganol dydd er mwyn mynd ati'n syth bìn i bori yn ei dudalennau. Mae'n fwriad gennym i gynhyrchu fersiwn printiedig o'r Atodiad maes o law pan fydd modd ei ddosbarthu i bawb ar ôl llacio'r cyfyngiadau presennol.

Mawr yw ein dyled fel eglwys i Emlyn Davies am ei holl waith gyda'r oedfa ac am ofalu hefyd am Atodiad y Dathlu.

Brysiwch Wella

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Keith Rowlands, sydd ar hyn o bryd yn cael profion yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg, Llantrisant.

RHEOLWR SAFLE

Dros yr un mlynedd ar ddeg diwethaf, bu'r eglwys yn hynod o ffodus yn ei Rheolwyr Safle cydwybodol. Yn ddiweddar rhoddodd Ioan Rees wybod i Fwrdd y Cyfarwyddwyr o'i fwriad i ymddeol o'r swydd ddiwedd mis Mawrth. Ond cyn dechrau chwilio am olynydd iddo bu'n rhaid cau'r adeiladau ar y safle am gyfnod amhenodol yn sgil y pandemig COVID-19.

Yn y cyfamser, mae Pwyllgor y Meddiannau wedi manteisio ar y cyfle hwn i adolygu'r swydd-ddisgrifiad a'r telerau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau yn yr amodau cyflogi staff. Mae'n fwriad nawr i fynd ati i hysbysebu am olynydd i Ioan.

Swydd gyflogedig ran-amser yw hon sy'n cwmpasu ystod eang o gyfrifoldebau, yn cynnwys cadw dyddiadur o'r mudiadau ac eraill sydd am ddefnyddio'r Capel neu'r Ganolfan, trefnu i agor a chau'r adeiladau a'u gwresogi yn ôl y galw, a goruchwylio gwaith y glanhawr. Bydd disgwyl i'r Rheolwr hefyd fynychu cyfarfodydd Pwyllgor y Meddiannau yn rhinwedd ei swydd, ac i dynnu sylw'r pwyllgor at unrhyw ddiffygion yn yr adeiladau a'r safle.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cynnig am y swydd – neu'n adnabod unrhyw un allai fod â diddordeb – ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau a'r telerau trwy gysylltu naill ai â Mike West neu Gwilym Huws.

'Gadewch i blant bychain…'

Ymhlith yr erthyglau yn rhifyn cyfredol cylchgrawn digidol Cristnogaeth21, sef *AGORA,* mae un gan Geraint Rees: *'Dyfodol yr Eglwys Gristnogol – ystyriaethau sy'n deillio o waith Gabor Maté'.* Therapydd oedd Maté wrth ei alwedigaeth, ond wedi iddo ymddeol mae wedi troi ei sylw'n fwyfwy at ddatblygiad y plentyn. Un o'r meysydd sydd wedi ei ddiddori yw effaith negyddol newidiadau cymdeithasol cyfoes ar ymddygiad unigolion wrth iddynt dyfu'n oedolion. Dros y cyfnod diweddar mae profiad plant 7oed+ o gymysgu'n naturiol gydag oedolion o fewn eu cymuned leol ac o fewn y cartref wedi crebachu'n ddirfawr, tra bod y teclynnau electronig sydd ganddynt wedi ymestyn yr amser maent yng nghwmni plant eraill wedi cynyddu. Ym marn Maté, *'os mai'r ffynhonnell arall ar gyfer datblygiad plentyn yw plant eraill, bydd y sgiliau o ddangos empathi, cydymdeimlad, gofal a llawer o bethau eraill yn mynd yn sgiliau sy'n estron i genhedlaeth gyfan o oedolion'.*

Aiff Geraint yn ei flaen i ystyried a yw dadansoddiad Maté yn ddilys ai peidio – os felly, yna mae angen i'r eglwys Gristnogol ddeffro'n gyflym er mwyn gwrthsefyll y bygythiad hwn i werthoedd y 'Gwynfydau' sydd mewn perygl o fod yn gwbl estron i 'drwch y ddynoliaeth'.
[I ddarllen yr erthygl yn ei chyfanrwydd, ewch i adran AGORA ar y wefan *cristnogaeth21.cymru*].

CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Gyda chyfnod casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol wedi dod i ben, byddwn yn ail-afael yn ein casgliad ariannol ar gyfer Banc Bwyd Taf Elái. Mae mwy o bobl nag erioed yn dibynnu ar y Banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn, a ninnau'n methu cynnal ein casgliad bwyd arferol oherwydd y cyfyngiadau presennol. Fe fyddwn ni'n dilyn y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:
Cod didoli 30 – 96 – 72
Rhif y cyfrif 03607499
Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Siec yn daladwy i: Capel y Tabernacl, Cyf
gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái.
Anfoner at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos Iau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205.